



Alison Ward  
Prif Weithredwr  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Civic Centre  
Pont-y-Pŵl, NP4 6YB

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

10 Awst 2015

Annwyl Ms Ward

### **Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol**

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi am roi ymateb terfynol i'm Hanghenion Gweithredu, sef ymateb yr wyf wedi cael cyfle i'w ddadansoddi bellach.

Wrth ddadansoddi'r ymateb a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn.

Mae'n glir bod eich ymateb yn dangos ymrwymiad i gyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac mae'n manylu'n glir ar gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig.

Rwy'n arbennig o falch bod eich sefydliad wedi defnyddio'r adborth adeiladol a gynigiais yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gwella'ch ymateb. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, dylai datblygu Cyfeiriadur Gwasanaethau Cymunedol alluogi'r darparwyr i ddod o hyd i wasanaethau sy'n cael eu darparu y tu allan i'r Awdurdod Lleol (Angen Gweithredu 3.3).

Gan hynny, rwy'n fodlon bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'm Hanghenion Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y

camau angenrheidiol i gyflawni'r newid angenrheidiol. Serch hynny, rhaid imi nodi bod un maes o hyd lle mae angen rhagor o waith er mwyn rhoi sicrwydd imi y bydd y newid a'r gwelliant angenrheidiol yn cael eu cyflawni ar ran pobl hŷn. Byddwn i hefyd yn disgwyl eich gweld yn datblygu gweithdrefnau clir ar gyfer adolygu a chlориannu er mwyn rhoi sicrwydd ar lefel uchel yn eich sefydliad y bydd y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

Mae dadansoddiad manwl wedi'i atodi o'r wybodaeth ychwanegol a roesoch mewn ymateb i'm cais.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Dwy ddim yn bwriadu gofyn am ddiweddariad manwl am yr holl gamau sydd gennych ar y gweill, oherwydd lefel y sicrwydd a'r ymrwymiad rydych chi wedi'u dangos wrth sicrhau'r canlyniadau hyn. Gan hynny, rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal (bod eich camau chi wedi'u cwblhau). Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynghlŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir

*Sarah Rochira*

**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

### Angen Gweithredu 1.6

#### Casgliad Terfynol - Derbyniol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynghylch pryd y mae eiriolaeth ar gael i bobl hŷn mewn cartrefi gofal, ac mae hefyd yn amlinellu'r amrywiol gamau y mae wedi ymrwymo iddyn nhw er mwyn gwella'r ddarpariaeth eiriolaeth.

Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn datgan yn benodol bod eiriolaeth ar gael pan fo cartref gofal yn cau neu pan fo yn y broses Pryderon Cynyddol a bod y gofyniad ynglŷn ag eiriolaeth pan fo cyfeiriad diogelu wedi'i wneud wedi'i ysgrifennu yn eu gweithdrefnau POVA. Pan fo unigolyn yn symud o'r ysbyty, rwy'n nodi bod yr ymateb yn datgan y gall gweithiwr cymdeithasol weithredu fel eiriolydd iddo, ac rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai hyn greu gwrthdaro buddiannau a bod unigolyn yn cael ei gyfeirio at y darparydd eiriolaeth annibynnol. Er hynny, fe fyddwn yn disgwyl i eiriolaeth annibynnol gael ei chynnig i bob unigolyn wrth ymadael â'r ysbyty ac nid yn unig pan allai cynrychiolaeth gan ei weithiwr cymdeithasol greu gwrthdaro buddiannau.

Mae yna nifer o ymrwymadau a wnaethpwyd gan yr Awdurdod Lleol sydd â'r potensial i alluogi pobl hŷn ymhellach i sicrhau eu hawliau a chael ateb i'w pryderon, yn enwedig pan fyddan nhw mewn sefyllfaoedd hygllwyf. Er enghraifft, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod rhagor o wybodaeth am eiriolaeth ar gael, a bod gwaith codi ymwybyddiaeth yn digwydd i wella dealltwriaeth rheolwyr a staff cartrefi gofal o rôl eiriolaeth annibynnol.

Ar ben hynny, mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gynyddu argaeledd eiriolaeth i bobl hŷn sydd ag anghenion gofal iechyd. Mae'r ymateb wedi cydnabod 'cymhlethdod cynyddol anghenion' ymysg y boblogaeth yn ei gartrefi gofal ac rwy'n falch ei fod yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i'r cymorth y mae arnyn nhw ei angen fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u pryderon yn cael eu hateb.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r ffaith bod unigolyn atebol wedi'i gynnwys sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, er fy mod yn nodi bod yr amserlenni a ddarperir yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad wedi'u cynnwys, fe fyddai wedi bod yn dda gweld rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y camau ychwanegol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Fe fyddai hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu monitro'r cynnydd yn y maes hwn yn glir.

## **Angen Gweithredu 2.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae'r ymateb gan yr Awdurdod Lleol yn darparu disgrifiad o'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau amlddisgyblaeth a gwasanaethau arbenigol sydd wedi'u dylunio i gefnogi adsefydlu. Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr ymateb yn dangos yn glir y gwaith parhaus mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd er mwyn darparu'r gwasanaethau yma. Er enghraifft, mae'r ymateb yn cyfeirio at Brosiect Eiddilwch Gwent, darpariaeth

gwasanaethau ail-alluogi trwy 'welyau camu i fyny/camu i lawr' a hefyd y ffaith bod cynlluniau gofal wedi'u creu sy'n cynnwys deilliannau unigol y gellir eu hwyluso gan y gwasanaeth iechyd neu ar y cyd.

Er bod gwybodaeth fanwl wedi'i darparu, rwy'n nodi nad oes yna asesiad ynghylch realiti'r mynediad sydd gan bobl hŷn i'r gwasanaethau yma. Yn hytrach, mae'r ymateb yn datgan 'bod gan unigolyn fynediad' i'r gwasanaethau yma. Hyd yn oed os ydyn nhw'n cael eu darparu mewn ardal, heb fynediad i wasanaethau o'r fath mae pobl hŷn mewn perygl o ddioddef eiddilwch cynyddol, llai o annibyniaeth ac o ganlyniad i hynny, problemau iechyd sylweddol.

Er hynny, mae'r ymateb yn cydnabod yr angen i fod yn fwy rhagweithiol o ran ail-alluogi ac mae'n cynnwys nifer o gamau wedi'u dylunio i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau amlddisgyblaeth i bobl hŷn mewn cartrefi gofal. Er enghraifft, fe fydd yr Awdurdod Lleol yn ail-lansio hyfforddiant ail-alluogi i bob darparydd cartref gofal, yn cyflwyno 'hyrwyddwr annibyniaeth' ym mhob cartref gofal i ymgorffori diwylliant o annibyniaeth, ac yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i wella darpariaeth gwasanaethau. Mae gan y camau hyn y potensial i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad i'r gefnogaeth y mae arnyn nhw ei hangen yn dilyn cyfnod o salwch er mwyn cynyddu eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd i'r eithaf.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r ffaith bod unigolyn atebol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymrwymadau yma'n cael eu gweithredu wedi'i gynnwys. Fodd bynnag, er fy mod yn nodi bod yr amserlenni a ddarperir yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad wedi'u cynnwys, fe fyddai wedi bod yn dda gweld rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y camau ychwanegol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Fe fyddai hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu monitro'r cynnydd yn y maes hwn yn glir.

## **Angen Gweithredu 3.2**

### **Casgliad Terfynol - Rhannol**

<p>3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel</p>
--

rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwyllo ac asesu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn dangos ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant dementia i staff cartrefi gofal. Er enghraifft, mae hyfforddiant dementia ar gael am ddim i'r staff ym mhob lleoliad gofal yn Nhor-faen ac mae cymwysterau ar gyfer gweithio gyda phobl sy'n byw â dementia hefyd ar gael i staff gofal cymdeithasol. Ar ben hynny, mae'r ymateb yn datgan bod yr Awdurdod Lleol wedi cychwyn cynllun peilot gydag un darparydd ar y prosiect 'Dementia Pili Pala'.

I gartrefi gofal annibynnol, mae'r ymateb yn datgan bod y gofyniad bod rhaid cael staff wedi'u hyfforddi'n briodol yn rhan o gontractau'r darparwyr, ac y dylid monitro hyn trwy ymweliadau cydymffurfio â chontractau. Er fy mod yn croesawu'r ffaith bod unrhyw ddiffygion mewn hyfforddiant yn cael eu nodi trwy'r ymweliadau hyn, a bod cynllun gweithredu wedi'i gyflwyno i wella'r ddarpariaeth hyfforddiant, dydy'r ymateb ddim yn datgan yn bendant y byddai angen hyfforddiant dementia i ateb y gofyniad o fod 'wedi'i hyfforddi'n briodol'. Ar ben hynny, er bod yr ymateb yn datgan bod hyfforddiant dementia yn rhan o gyfnod ymsefydlu'r staff mewn lleoliadau gofal 'Iechyd Meddwl Oedrannus', mae'n datgan y disgwylir mai 75% yn unig o'r staff fydd cael yr hyfforddiant yma mewn gofal nyrsio cyffredinol a phreswyl.

Mae gan fynediad i'r hyfforddiant yma y potensial i sicrhau bod y staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia. Ond, dydy'r Awdurdod Lleol ddim wedi darparu unrhyw wybodaeth ynghylch nifer y staff gofal sydd wedi manteisio ar yr hyfforddiant yma na chwaith unrhyw ddarlun o effaith hyn ar ansawdd bywyd pobl hŷn sydd â dementia mewn cartrefi gofal. Dydy'r ymateb ddim yn cyfeirio at sut mae goruchwyliaeth ac asesiadau perfformiad yn cael eu defnyddio i fonitro sgiliau a chymwyseddau staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal. Er hynny, mae'n dda gweld y bydd anghenion hyfforddi yn eitem sefydlog ar yr agenda yn Fforymau'r Darparwyr yn y dyfodol.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r ffaith bod unigolyn neu dîm atebol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymrwymadau yma'n cael eu gweithredu wedi'i

gynnwys. Fodd bynnag, er fy mod yn nodi bod yr amserlenni a ddarperir yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad wedi'u cynnwys, fe fyddai wedi bod yn dda gweld rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y camau ychwanegol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Fe fyddai hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu monitro'r cynnydd yn y maes hwn yn glir.

### **Angen Gweithredu 3.3**

#### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma fel pe bai'n dangos ymrwymiad i ddarparu cynlluniau cyfeillio ac mae'n rhoi manylion ynghylch sut y mae cynlluniau cyfeillio yn cael eu darparu yn yr ardal. Mae cyfeillio yn hanfodol er mwyn helpu pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth a chael cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon ni waeth ble maen nhw'n byw.

Er enghraifft, mae'r ymateb yn datgan bod yna gysylltiadau ag ysgolion yn y gymuned a hefyd â chymunedau ffydd a diwylliant ar hyn o bryd, ac y dylai datblygu Cyfeirlyfr Gwasanaethau Cymunedol alluogi'r darparwyr i ddod o hyd i'r gwasanaethau a ddarperir y tu allan i'r Awdurdod Lleol. Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd gweithwyr cymdeithasol a'r tîm monitro contractau yn monitro i ba raddau y mae gwasanaethau cyfeillio yn cael eu defnyddio.

Codais bryder mewn perthynas ag ymateb cychwynnol yr Awdurdod Lleol, sef bod angen rhagor o wybodaeth ynghylch unrhyw fylchau neu ddiffygion yn y ddarpariaeth cyfeillio. Er nad ydy'r wybodaeth honno yn darparu darlun o realiti mynediad i gyfleoedd cyfeillio i bobl hŷn, rwy'n croesawu'r ffaith y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal archwiliad o'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd mewn cartrefi gofal, yn rhoi cyhoeddusrwydd i arferion da ac yn hwyluso addysg cymheiriaid ymysg y darparwyr. Fe



ddylai hyn alluogi'r Awdurdod Lleol i ddeall yn well yr angen am gyfleoedd o'r fath, ac yn ei dro, i fod mewn gwell sefyllfa i hybu a siapio mynediad i gyfeillio. Heb wybodaeth o'r fath, mae yna risg barhaus y gallai pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal fynd yn unig ac ar wahân heb gysylltiadau cymdeithasol ystyrlon na'r gallu i arfer eu ffydd a pharhau i gymryd rhan yn eu cymuned.

Rwy'n nodi pryder yr Awdurdod Lleol ynghylch gofynion AGGCC ynglŷn â recriwtio gwirfoddolwyr, ac rwy'n croesawu'r ffaith ei fod wedi ymrwymo i fynd at AGGCC i ddatblygu dull o weithredu cymesurol tuag at recriwtio a defnyddio gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r ffaith bod unigolyn neu dîm atebol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymrwymadau yma'n cael eu gweithredu wedi'i gynnwys. Fodd bynnag, er fy mod yn nodi bod yr amserlenni a ddarperir yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad wedi'u cynnwys, fe fyddai wedi bod yn dda gweld rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y camau ychwanegol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Fe fyddai hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu monitro'r cynnydd yn y maes hwn yn glir.

## **Angen Gweithredu 5.6**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.

## **Angen Gweithredu 6.2**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu yma yn darparu gwybodaeth ar nifer o ddulliau y mae'n eu defnyddio i wrando ar leisiau a phrofiadau pobl hŷn er mwyn gwella gwasanaethau cartrefi gofal.

Er enghraifft, mae'r ymateb yn disgrifio sut y mae arolygon ac adolygiadau'n cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth o safon oddi wrth bobl hŷn, gan gynnwys y rhai a all ei chael hi'n anodd lleisio barn drwy ddefnyddio eiriolwyr. Mae rhan o'r ymweliadau monitro a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn cynnwys arsylwi ar bobl hŷn a siarad â nhw yn ystod eu hymweliadau, ac mae'r ymateb yn disgrifio sut y caiff yr wybodaeth yma ei defnyddio i lywio Datganiadau Sefyllfa'r Farchnad a gwaith comisiynu yn y dyfodol. Felly, fe ddylai ansawdd y ddarpariaeth a dealltwriaeth yr Awdurdod Lleol o ansawdd bywyd unigolion wella trwy'r broses yma.

Serch hynny, mae'n rhaid imi nodi bod y rhain fel pe baen nhw'n brosesau ffurfiol na fyddan nhw o bosibl yn rhoi dealltwriaeth lawn i'r Awdurdod Lleol o ansawdd bywyd beunyddiol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Felly, fe all fod yna risg bod cyfleoedd i wneud newidiadau bach a allai wneud gwahaniaeth sylweddol i ansawdd bywyd a gofal yn cael eu colli a'u bod wedyn yn mynd yn arwyddocaol, yn creu effaith ac yn ddrud i'w datrys.

Ond, rwy'n croesawu'r ffaith bod system adborth y Bwrdd Iechyd yn null 'trip advisor' yn cael ei hyrwyddo. Mae gan hon y potensial i roi cyfle i breswylwyr a'u teuluoedd roi adborth i'r cartref gofal a'r Awdurdod Lleol mewn amser go iawn ac nid trwy brosesau monitro ffurfiol. Serch hynny, er fy mod yn cydnabod bod y fenter yma yn ei dyddiau cynnar, buaswn yn disgwyl i'r bobl hŷn gael eu helpu i gael mynediad i'r system adborth yma trwy amrywiol ddulliau a bod modd dangos tystiolaeth o newid a gwelliant effeithiol ar ansawdd bywyd o ganlyniad i hynny. Ar ben hynny, ni ddylid bychanu pwysigrwydd a gwerth gwrando beunyddiol ac anffurfiol ar leisiau a phrofiadau pobl hŷn.

Yn olaf, rwy'n croesawu'r ffaith bod unigolyn atebol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymrwymadau yma'n cael eu gweithredu wedi'i gynnwys. Fodd bynnag, er fy mod yn nodi bod yr amserlenni a ddarperir yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad wedi'u cynnwys, fe fyddai wedi bod yn dda gweld rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y camau ychwanegol a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol. Fe fyddai hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu monitro'r cynnydd yn y maes hwn yn glir.

## **Angen Gweithredu 6.7**

### **Casgliad Terfynol - Derbyniol**

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrâu
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal

- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Barnwyd o'r blaen fod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Angen Gweithredu hwn yn dderbyniol. Gan hynny, does dim rhagor o ddadansoddi wedi bod.